

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 11eg Chwefror, 2019, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)
 Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Carys E. Williams, Siôn Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Ifor Owen

95. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

96. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad buddiant personol gan un aelod a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol.

97. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 14eg Ionawr, 2019.

Materion yn Codi

(a) Eitem 87 – Materion Iechyd

Adroddodd Y Clarc iddi gael gair a Rheolwr Meddygfa Rhydbach ynglyn a'r g Wŷn nad oedd enw'r claf yn aros y ddigon hir ar y sgrin, Eglurodd y Rheolwr fod hyn wedi ei adfer ac fod yr enw ar y sgrin am fwy o amser.

Nodwyd hyn ond tynnwyd sylw nad oedd y swm i'w glywed bellach pan fyddai enw newydd i fyny ar y sgrin a **phenderfynwyd** gwneud ymholiadau pellach i geisio adfer hyn.

(b) Eitem 89 – Ceisiadau am Gyfraniadau Ariannol

Nodwyd fod nodyn o ddiolch wedi ei dderbyn gan y tri Mudiad dderbyniodd gyfraniad ariannol yn y cyfarfod diwethaf.

98. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

(a) Cyflwynwyd cais C19/0026/32/LL – estyniad i storfa silwar yng Nghrugeran, Sarn.

(Datganodd Y Cyngorydd Glyn Roberts ddiddordeb yr eitem yma a gadawodd yr ystafell tra bu'r cais yn cael ei drafod. Hefyd bu iddo arwyddo'r datganiad buddiant personol).

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

99. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth drwy e-bost gan Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol yn yr Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd, mai dyfynbris am “godi a gosod 2 arwydd Eglwys Bryncroes a dau arwydd Ffynnon Fair ynghyd a ffi rheolaeth traffig” fyddai £390.74.

Gwnaed ymholiadau pam fod angen dau arwydd a dyma'r atebiad “gan fod yr arwyddion angen cael eu codi ar y ffordd fawr, fe fydd angen dau arwydd i gyfeirio gyrrwyr o'r ddau gyfeiriad.”

Penderfynwyd derbyn y dyfynbris a gofyn am i'r gwaith gael ei wneud mor fuan a bo modd.

O dan y penawd hwn **penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol:

- 1) Lon Trefaes Fawr, Botwnnog – mewn cyflwr difrifol ac angen sylw brys gan fod yn creu perygl i fodurwyr a defnyddwyr y ffordd.
- 2) Twll wedi datblygu ger Capel Salem, Sarn angen sylw.
- 3) Twll wedi datblygu ar y gornel rhwng Liverpool House a'r Hen Efail, Sarn, angen sylw.
- 4) Angen symud yr arwydd 'dim loriau' o ymyl Liverpool House, Sarn, i lawr at y Neuadd gan i lori fynd i drafferthion yn gynharach yn y mis.

100. **MATERION IECHYD**

- (a) Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.
- (b) Derbyniwyd cais unwaith yn rhagor am gael ymestyn yr enw ar y sgrin am fwy o amser ac hefyd am i'r swm ddod yn ol i ddangos fod gwybodaeth newydd i fyny.

Penderfynwyd cysylltu a Rheolwr Y Feddygfa unwaith yn rhagor.

101. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad ychwanegol yn ddyledus.

Cyflwynodd y daenlen i fyny i ddyddiad y Cyngor yn dangos mai £6,345.55 oedd yn weddill yn y cyfrif cyfredol yn dilyn gwariant mis lonawr. Nodwyd y wybodaeth.

102. **YMGYNGHORIAD AR BOLISI GOSOD TAI GYFFREDIN GWYNEDD**

Gan fod y ddogfen yn cael ei chylchredeg ymysg yr aelodau ac nad oedd i law ar y noson penderfynwyd gohirio am fis arall.

103. **AMBIWLANS AWYR CYMRU I BLANT**

Nodwyd fod gwahoddiad i law i ymweld a Swyddfa Ambiwylans Awyr Cymru ym Maes Awyr Dinas Dinlle ar Ddydd Mercher, 20fed Chwefro, 2019.

104. **POLISIAU'R CYNGOR**

Adroddodd y Clarc fod angen adolygu'r polisiau a **phenderfynwyd** fod y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clarc i edrych drwyddynt ac adrodd yn ol i'r Cyngor.

105. **EGLWYD SANT BEUNO BOTWNNOG**

Cyflwynyd y llythyr isod oddi wrth Hywel Parry-Smith, Cadeirydd CAW Bro Madryn a'r Parchedig Richard Wood, Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Madryn:

“Annwyl Gynhorwyr,

Y mae Eglwys Sant Beuno, Botwnnog yn rhan o'r Ardal Weinidogaeth Bro Madryn, o fewn yr Eglwys yng Nghymru.

Yn Nhachwedd 2015 fe benderfynodd Cyngor Ardal Weinidogaeth (CAW) Bro Madryn i beidio â chynnal gwasanaethau ar y Sul ym Motwnnog ac yn eu lle , cynnal gwasanaethau Mawl a Moliant ,ganol wythnos.

Yr un pryd , ymrwymwyd y CAW i ymchwilio dod â phartion a oedd ganddynt ddiddordeb, at eu gilydd er mwyn defnyddio adeilad Eglwys Sant Beuno i fyflwyno'r Newyddion Da Iesu Grist i bobl ifanc enwedig yn Ysgol Botwnnog, ac i deuluoedd ac i'r holl gymuned lleol.

Ar Fai 22ain, 2016, fe gynheliwyd gwasanaeth y Sul am y tro olaf.

Prin oedd cynulleidfaoedd gwasanaethau Mawl a Moliant ganol wythnos.

Mynychodd plant lleol y Daith i Fethelem a gynheliwyd yn Rhagfyr 2017 yn yr eglwys. Ers hynny nid ydyw'r adeilad ddim wedi cael ei ddefnyddio. Y mae ef wedi bod yn segur felly am ychydig dros flwyddyn.

Rwan y mae'r CAW wedi bwriadu gofyn i Esgob Bangor gau'r Eglwys a diswyddo'r adeilad Y mae'r adeilad yn rhestredig: Gradd 2.

Byddai Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn gyfrifol dros gadw a chynnal yr adeilad , os y caiff ei ddiswyddo.

Fe erys statws mynwent Eglwys Botwnnog yn union fel y mae. Erys y cyfrifoldeb dros ei chynnal a chadw efo'r CAW.

Cynhelir cyfarfod nesaf CAW Bro Madryn ar 19eg Mawrth, 2019.

Os oes gennych gwestiynau yng nglân â'r trefn arfaethedig , byddech gystal â chysylltu â'r Parchedig Richard Wood. Y dengys ei fanylion cyswllt ar waelod y llythr. Diolch yn fawr iawn.

Yr eiddoch yn gywir,

Hywel Parry-Smith
Cadeirydd CAW Bro Madryn

Parchedig Richard Wood
Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Madryn”

Penderfynwyd ymateb i'r uchod gan ddiolch iddynt am gadw'r Cyngor mewn gwybodaeth ynglyn ag Eglwys Sant Beuno, Botwnnog.

106. **Arolwg Cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd, yn amgau dogfen oedd yn rhoddi cyfle i'r cyhoedd roddi barn ar 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?' Gan i'r ddogfen yma gyrraedd yn dilyn cyfarfod Ionawr o'r Cyngor ac angen ymateb erbyn 31ain Ionawr, 2019, anfonwyd copi allan i bob aelod gan ofyn iddynt gysylltu a'r Gadeirydd i fynegi barn os y dymunant.

Ni dderbyniodd y Gadeiryddes unrhyw adborth felly paratowyd adborth ganddi ar ran y Cyngor fel a ganlyn:

Cyfeirnod 25 yn y ddogfen "codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi eu difrodi gan drigolion"

Ymateb – Ni chytunwn a hyn gan fod llawer o'r biniau sydd yn cael eu difrodi yn malu wrth gael eu gwagio gan weithwyr y loriau 'sbwriel.

Cyfeirnod 36 a 37 o'r ddogfen "Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill" a "trosglwyddo meysydd chwarae i eraill"

Ymateb – Yn anffodus nid yw cyfanswm yr arian sydd gennym yn ein cyllid Cyngor Cymuned yn ddigon i'n galluogi ni eu cymryd drosodd a'u rhedeg.

Cyfeirnod 51 o'r ddogfen "Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol"

Ymateb – Byddai'n golled fawr iawn i drigolion Llŷn pe byddai Cyngor Gwynedd yn methu cefnogi "O Ddrws i Ddrws" – colled i bobl hŷn a phobl anabl sy'n methu gyrru ac heb fod yn berchen ar fodur i'w cludo i'r Feddygfa, Ysbyty a.y.y.b.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a diolch i'r Gadeiryddes am ymateb ar ran y Cyngor.

